Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD LLUN 3 EBRILL 2017 am 9.30am
CANOLFAN ARLOESEDD Y BONT, DOC PENFRO

Presennol:

Y Cyng Jamie Adams	Arweinydd, Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd)
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sharron Lusher	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Jessica Morgan	PLANED
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ian Scale	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau De-orllewin Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Roger Thomas	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dros Dro, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
CI Mark McSweeney	Heddlu Dyfed Powys
Alyson Phillips	Adran Gwaith a Phensiynau
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Yn bresennol

Claire George	Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP
Tom Moses	Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Sir Benfro

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dyfed Powys
Bernadine Rees	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-Gadeirydd)
Steve Moore	Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kate Chamberlain	Llywodraeth Cymru
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Alec Don	Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau
Helen Matthews	Uwch Reolwr Cydberthnasau Allanol, Canolfan Byd Gwaith
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Uwch-Arolygydd Ian John	Heddlu Dyfed Powys
Paul Morris	Heddlu Dyfed Powys
Helen Matthews	Adran Gwaith a Phensiynau

Dechreuodd y cyfarfod am 9.35am.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 31 Ionawr 2017 yn gofnod manwl gywir.

3. Cofnod Gweithredu

Gwobrau Balchder yn Sir Benfro – Nododd NE fod nifer o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal i ddechrau'r broses o lansio'r gwobrau. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Western Telegraph ac mae PAVS wedi cytuno i weinyddu'r broses o gyflwyno'r gwobrau. Caiff y prosiect ei lansio ar ddiwedd mis Mai gyda datganiad i'r wasg.

Cronfa Gyfun y BGC - Yn dilyn ceisiadau i bartneriaid ar gyfer arian i sefydlu cronfa gyfun ym mis Tachwedd 2016, dywedodd NE yr ymddengys bod ychydig o ddryswch ynghylch beth y caiff y gronfa ei defnyddio ar ei gyfer. Ni chaiff cronfeydd a sicrhawyd gan bartneriaid eu defnyddio i ariannu staff na gwaith presennol ond yn hytrach i ariannu gweithgaredd ar y cyd sy'n gysylltiedig â'r BGC, fel digwyddiad y Cynllun Llesiant ar 28 Ebrill a'r Gwobrau Balchder yn Sir Benfro. Byddai'n trafod y mater eto gyda'r Cadeirydd ac yn rhoi eglurhad pellach i'r Bwrdd. **NE**

4. Asesiad Llesiant ar gyfer Sir Benfro

Rhoddodd NE drosolwg byr ar gefndir y fersiwn a gyflwynwyd i'w gymeradwyo. Nododd fod yr holl ymatebion wedi eu hystyried yn ofalus a bod nifer o ddiwygiadau ac ychwanegiadau wedi eu gwneud i atgyfnerthu'r Asesiad mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd. Rhoddodd hefyd drosolwg o'r Atodiadau i'r Asesiad, a oedd yn cynnwys ymatebion gan Lywodraeth Cymru a Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a nododd fod yr ymatebion a dderbyniwyd gan awdurdodau cyfagos wedi bod yn eithaf tebyg i'w gilydd.

Roedd nifer o feysydd a fyddai'n cael eu hatgyfnerthu o fewn y ddogfen dros y misoedd nesaf, gan edrych eto ar y dull gweithredu i ddiffinio Ardaloedd Cymunedol, atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o lesiant diwylliannol, a sicrhau y caiff pob grŵp ei gynrychioli. Nodwyd hefyd bod problemau wedi codi mewn perthynas â chael adborth ar y ddogfen gan y cyhoedd a grwpiau penodol. Roedd y Comisiynydd hefyd wedi gofyn i'r dadansoddiad o fewn yr Asesiad gael ei wneud yn fwy penodol i Sir Benfro a nododd NE y byddai'r digwyddiad ar ddiwedd Ebrill yn helpu i symud tuag at hyn gan y byddai'r canlyniadau o'r digwyddiad yn adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Sir Benfro ac yn cael eu bwydo i mewn i'r asesiad maes o law. Dywedodd NE y byddai atgyfnerthu'r Asesiad Llesiant yn broses barhaus yn y dyfodol ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant.

Cododd SPJ y pwynt, o fewn ymateb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod meysydd y gofynnwyd i'r BGC ystyried eu hatgyfnerthu cyn cyhoeddi'r Asesiad. Dywedodd NE mai'r dull gweithredu a gymerwyd gyda'r fersiwn ddrafft derfynol o'r Asesiad oedd atgyfnerthu'r meysydd lle'r oedd yn rhwydd gwneud hynny, gan gydnabod bod mwy o

waith i'w wneud mewn meysydd eraill, er enghraifft, o ran Ardaloedd Cymunedol. Hwn oedd y dull gweithredu a gymerwyd hefyd gan gydweithwyr yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin. Dywedodd AB ei bod yn ymwybodol o awdurdod cyfagos a oedd wedi cyhoeddi ei Asesiad heb wneud unrhyw newidiadau a awgrymwyd gan y Comisiynydd. Dywedodd SL ei bod yn cael trafferth gweld y cysylltiadau yn yr Asesiad i ddogfennau eraill, megis yr Asesiad Poblogaeth. Dywedodd NE y byddai'n ychwanegu paragraff ychwanegol i'r Asesiad i gyfeirio darllenwyr i ddeddfwriaeth neu gyhoeddiadau eraill perthnasol. Awgrymodd SJ hefyd y dylai partneriaid statudol rannu eu Hamcanion Llesiant gydag aelodau'r BGC. Caiff y rhain eu hanfon i LR ar gyfer eu dosbarthu i'r grŵp.

NE

SPJ/ SJ/ AW/ RT/ LR

Yna trafododd y partneriaid yn fyr p'un a ddylai'r Asesiad gael ei adolygu, ac os felly, pa mor aml, gan ystyried y gwaith sydd ei angen yn y dyfodol ar y ddogfen a'r cyhoeddiad sydd i ddod o adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gan y Comisiynydd. Cytunwyd y caiff yr Asesiad Llesiant ei ddiwygio er mwyn ystyried adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gwaith ychwanegol pellach, ac yna byddai'n cael ei adnewyddu a'i ddiweddaru fel y bo angen os byddai unrhyw newidiadau mawr i ddata a allai effeithio ar flaenoriaethau posibl yn y dyfodol.

NE

Gwnaeth partneriaid y BGC ganmol y tîm Cymorth Partneriaeth a Chraffu am y gwaith o greu'r Asesiad, gan roi cymeradwyaeth ffurfiol i'r ddogfen, yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt, ac ar gyfer ei chyhoeddi.

5. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Strategol Drafft

Hysbysodd NE y Bwrdd bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses o ymgynghori ar ei drafft cyntaf o'r cynllun Strategol a gofynnodd i bartneriaid BGC ystyried y Cynllun drafft ac ymateb fel y bo'n briodol.

Cwestiynodd y partneriaid atebolrwydd y Comisiynydd gan nad oedd yn glir yn yr adroddiad pwy y byddai'n atebol iddo ar gyfer ei gwaith. Cwestiynwyd hefyd y cysylltiadau rhwng polisi Llywodraeth Cymru a gwaith y BGC. Nodwyd hefyd fod y ddogfen yn ddyheadol ei natur ac y byddai'n bwysig i'r BGCau ganolbwyntio ar strwythurau lleol. Nododd AW y byddai partneriaid statudol unigol fwy na thebyg yn cyflwyno eu hymatebion eu hunain ar y Cynllun, fodd bynnag, byddai NE yn drafftio ymateb ar ran y BGC.

NE

6. Datganiadau Ardal Leol – cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhoddodd AW gyflwyniad ar Ddatganiadau Ardal a BGCau a chysylltiadau rhwng y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Amlinellodd ddiben y Datganiadau Ardal, beth y dylent ei gynnwys a sut y dylid eu defnyddio. Esboniodd y caiff Datganiadau eu cynhyrchu yn chwe maes gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys amgylchedd morol ac amlinellodd y broses ar gyfer datblygu Datganiadau Ardal sy'n debygol o ddechrau ym mis Mai yn dilyn cyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.

7. Cymunedau Cryfach: Gwasanaethau Gwell – cyflwyniad gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Sir Benfro

Dechreuodd SL y cyflwyniad gan nodi bod y dirwedd ymgysylltu yn gymhleth ar hyn o bryd o ran y nifer o ddeddfwriaethau sy'n bodoli ac sy'n cael eu cyflwyno, felly bod angen

ffyrdd o ymgysylltu'n ystyrlon gyda phobl ar y lefelau cywir heb achosion o ddyblygu. Rhoddodd drosolwg o egwyddorion cyd-gynhyrchu ac amlinellodd pam y dylai'r BGC ei ddefnyddio fel dull yn y dyfodol. Yna rhoddodd TM a JM enghreifftiau o sut mae cyd-gynhyrchu wedi'i ddefnyddio mewn amrywiaeth o brosiectau y buont yn rhan ohonynt yn Sir Benfro.

Yna rhoddodd SL fanylion gan SL o ardaloedd lle gallai'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu gynnig cymorth i'r BGC mewn gwaith yn y dyfodol a lle gallai'r grŵp weithio gyda phartneriaid i ddenu adnoddau er mwyn cefnogi'r broses o ymgysylltu. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am gymorth gan bartneriaid y BGC o ran amser swyddogion, cymorth gan ymarferwyr ymgysylltu a hefyd y defnydd o leoliadau i gynnal gweithdai ac ati.

Cynigiodd RT ac SJ gymorth gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Hywel Dda yn y drefn honno. Awgrymodd SJ hefyd y gellid sicrhau cefnogaeth ar gyfer y Rhwydwaith fel rhan o'r adolygiad o isbartneriaid y BGC a gynhelir dros y misoedd nesaf.

8. Adborth o'r digwyddiad ar gyfer staff rheng flaen

Rhoddodd LR drosolwg byr o'r digwyddiad a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, gan nodi bod llawer o gynrychiolwyr wedi mynychu'r digwyddiad o 18 o sefydliadau. Amlinellodd y cwestiynau a gyflwynwyd i'r rhai a oedd yn bresennol a'u hymatebion a nododd yr ymddengys bod y sesiwn 'speed dating' wedi bod o werth i'r rheini oedd yn bresennol o ran ehangu eu gwybodaeth o amgylch meysydd lle gall staff rheng flaen o asiantaethau eraill gynnig cymorth yn y dyfodol. Lluniwyd cyfeirlyfr o gysylltiadau yn dilyn y digwyddiad a gaiff ei ddosbarthu i'r rheini a fynychodd ac amlinellodd LR nifer o opsiynau lle gallai digwyddiad tebyg fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r BGC yn y dyfodol.

Fel ymateb i'r cwestiynau, dywedodd LR nad oedd y digwyddiad wedi bod yn ddrud i'w gynnal ac y byddent yn cysylltu â'r rhai a fynychodd yn y dyfodol agos i bennu p'un a yw'r cysylltiadau a wnaed neu'r wybodaeth a gwasant o'r digwyddiad wedi bod yn ddefnyddiol iddynt yn eu rolau dros y misoedd diwethaf. Byddai LR yn cysylltu ag IJ ac SJ i drefnu digwyddiad tebyg yn ne'r Sir maes o law. **LR / IJ / SJ**

9. UNRHYW FATER ARALL

Nododd NE fod Kate Chamberlain wedi tynnu'n ôl o fod yn gynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar y Bwrdd, ond y byddent yn dod o hyd i gynrychiolydd arall. Caiff llythyr ei anfon at KC i ddiolch iddi am ei chymorth. **NE**

Nododd NE hefyd y bydd yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu ei gylch gorchwyl yn y cyfarfod nesaf gan ofyn i'r partneriaid ymgyfarwyddo â'r fersiwn gyfredol a gellir dod o hyd iddi ar dudalennau gwe y BGC. Byddai LR yn anfon dolen i'r dudalen berthnasol at bartneriaid. Byddai'n ofynnol i'r Bwrdd hefyd benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn yn y cyfarfod. **LR**

Roedd AD wedi cyfarfod yn ddiweddar â Chyfarwyddwr y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a oedd wedi cynnig rhoi cyflwyniad i'r BGC am eu gwaith yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed yn y gymuned. Cytunodd partneriaid y dylid cynnwys hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol a byddai NE yn trafod gydag AD i drefnu dyddiad priodol. **NE**

Diolchodd SPJ hefyd i'w gydweithwyr am eu cymorth gyda chynnig Tyddewi ar gyfer Dinas Diwylliant 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.